## GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A449A'R A40 (CYFNEWIDFA COLDRA, CASNEWYDD I FFIN CYMRU/LLOEGR, SIR FYNWY) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A449 a'r A40, neu gerllaw iddynt, rhwng Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd a Ffin Cymru/Lloegr, i'r gogledd o Drefynwy, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

ii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya neu 10 mya ar y darn o'r A40/A449 a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol pan fydd gwaith confoi yn digwydd ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 20 Chwefror 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn dod i rym yn gyntaf ar y dyddiad hwnnw ac yna byddant yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 - 06:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am gau'r ffyrdd yn cael ei arddangos cyn i waith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A449 & A40 TRUNK ROADS (COLDRA INTERCHANGE, NEWPORT TO THE WALES/ENGLAND BORDER, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A449 and A40 trunk roads between the Coldra Interchange, Newport and the Wales/England border, north of Monmouth, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the A449 and A40 trunk roads specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also described therein.

ii. impose a 50 mph, 40 mph or 10 mph speed limit on the length of the A40/A449 specified in Schedule 2 to this Notice. The 10 mph speed limit will operate during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 20 February 2023. The temporary prohibitions and restrictions are expected to first come into force on that date and then to operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) for a maximum duration of 18 months. Advance notice of closures will be displayed before the start of works.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
**Gwahardd cerbydau dros dro a llwybrau eraill**

1. Y darn o gefnffordd yr A449 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd (Cyffordd 24 yr M4) hyd at ganolbwynt Cyfnewidfa Rhaglan yr A449 a'r A40, Sir Fynwy.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau nad ydynt yn gerbydau traffordd ac sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar hyd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 tua'r gorllewin i Gylchfan Grove Park, ar hyd yr A4042 i Gylchfan Hardwick ac ar hyd yr A40 tua'r dwyrain i Gyfnewidfa Rhaglan: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Y llwybr arall ar gyfer traffig traffordd sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar hyd yr M4 tua'r gorllewin o Gyffordd 24 i Gyffordd 25A (Grove Park) ac yna dilyn y llwybr a ddisgrifir uchod: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

2. Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de yr A449 wrth Gyfnewidfa Brynbuga, Sir Fynwy.

3. Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy.

Codir arwyddion priodol i nodi'r llwybrau eraill yn ystod y cyfnodau pan fydd y ffyrdd ymuno ac ymadael ar gau, sef ar hyd yr A449 a/neu'r A40 tua'r gogledd/de, fel y bo'n briodol.

## SCHEDULE 1
**Temporary prohibition of vehicles and alternative routes**

1. The length of the A449 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Coldra Interchange, Newport (M4 Junction 24) to the centre-point of the A449 and A40 Raglan Interchange, Monmouthshire.

The alternative route for non-motorway northbound vehicles is via the westbound A48 Southern Distributor Road to Grove Park Roundabout, A4042 to Hardwick Roundabout and eastbound A40 to Raglan Interchange: vice versa for southbound traffic.

The alternative route for northbound motorway traffic is via the westbound M4 from Junction 24 to Junction 25A (Grove Park) and then follow the route described above: vice versa for southbound traffic.

2. The lengths of the A449 northbound and southbound exit and entry slip roads at Usk Interchange, Monmouthshire.

3. The lengths of the A449/A40 northbound and southbound exit and entry slip roads at Raglan Interchange, Monmouthshire.

The alternative routes for slip road closures will be signed with appropriate diversion signs and will be via the northbound/southbound A449 and/or A40, as appropriate.

## ATODLEN 2
**Terfynau cyflymder dros dro o 50 mya, 40 mya neu 10 mya a dim goddiweddyd**

Y darn o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 sy'n ymestyn o'u cyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd (Cyffordd 24 yr M4) hyd at ganolbwynt y mynediad i Chapel Farm, i'r gogledd o Drefynwy.

## SCHEDULE 2
**Temporary 50 mph, 40 mph or 10 mph speed limits and no overtaking**

The length of the A449 and A40 trunk roads that extends from its junction with the circulatory carriageway of Coldra Interchange, Newport (M4 Junction 24) to the centre-point of the access to Chapel Farm, north of Monmouth.